

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Cynnwys

Beth yw craffu?	3
Craffu ar waith	3
Sut mae craffu'n gweithio yn Sir Ddinbych?	4
Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu	5
Y broses ar gyfer penderfynu ar addasrwydd pwnc ar gyfer craffu	6
Gwaith craffu yn ystod 2021/22	7
Craffu a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor yn ystod 2021/22	8
Galw penderfyniadau'r Cabinet i mewn	10
Canlyniadau cadarnhaol y broses graffu	11
Pwyllgor Craffu Cymunedau	13
Pwyllgor Craffu Partneriaethau	19
Pwyllgor Craffu Perfformiad	23
Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych	27
Grwpiau Tasg a Gorffen	29
Gwaith ychwanegol	30
Ceisiadau Craffu gan drigolion	31
Sut gall trigolion gymryd rhan yn y broses graffu?	32
Ffurflen gais craffu	35

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Beth yw craffu?

Mae craffu'n rhan allweddol o strwythur gwleidyddol y Cyngor. Mae llawer o benderfyniadau pwysig y Cyngor yn cael eu gwneud gan y Cabinet, sef grŵp o wyth cynghorydd y mae'r Cyngor Sir wedi rhoi ei bwerau iddynt er mwyn dod i benderfyniadau ynghylch polisïau a gweithdrefnau ar ei ran.

Daw'r term 'scrutiny' yn Saesneg o'r gair Lladin 'scrutinium/scrutari' sy'n golygu 'i chwilio'. Yng nghyd-destun llywodraeth leol, rôl Craffu yw ymchwilio ac archwilio polisïau a phenderfyniadau i asesu a ellid eu gwella neu eu cryfhau i ddarparu gwell gwasanaethau i drigolion ac ymwelwyr â Sir Ddinbych. Cyfeirir at Graffu yn aml fel 'cyfaill beirniadol' y Cyngor, a'i bwrpas yw darparu beirniadaeth adeiladol er mwyn ceisio gwella gwasanaethau'n barhaus, sicrhau penderfyniadau gwell a gwireddu canlyniadau gwell.

Ni all Pwyllgorau Craffu wneud penderfyniadau, ond gallant ddylanwadu ar bolisïau, adolygu penderfyniadau a wneir gan y Cabinet a Swyddogion, gwneud argymhellion, ac archwilio ystod o bynciau sy'n effeithio ar drigolion, busnesau lleol ac ymwelwyr â'r sir.

Craffu ar waith

Dylai craffu weithio mewn ffordd ddiuedd bob amser. Ni ddylai gwleidyddiaeth ddylanwadu arno, dylai ei ffocws fod ar wella bywydau trigolion ac ar sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer ardal y sir.

Yn ogystal â'u rôl weithgar i ddatblygu polisïau ac adolygu perfformiad, mae gan Bwyllgorau Craffu gyfrifoldeb i ddal y Cabinet ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif am y penderfyniadau maent yn eu gwneud.

Os cred Pwyllgor Craffu y dylid edrych yn fanylach ar fater cyn rhoi penderfyniad ar waith, gall ofyn iddo gael ei adolygu dan y weithdrefn 'Galw i Mewn' a fydd yn galluogi Pwyllgorau Craffu i ffurfio cynigion amgen.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Sut mae craffu'n gweithio yn Sir Ddinbych?

Mae craffu'n gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i arweinyddiaeth y Cyngor, gan gymell gwelliant nid yn unig i wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor ond i wasanaethau a ddarperir mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus eraill yn yr ardal drwy alluogi i bryderon y cyhoedd gael eu clywed.

Cyflawnir gwaith craffu'r Cyngor gan dri Phwyllgor Craffu thematig, trawsbynciol, sy'n cwrdd oddeutu pob 7 wythnos ac maent yn cynnwys 11 aelod etholedig o bob plaid / grŵp gwleidyddol ar y Cyngor.

Y tri phwyllgor yn Sir Ddinbych yw:

- Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Pwyllgor Craffu Partneriaethau
- Pwyllgor Craffu Perfformiad

Wrth astudio materion addysg, mae cynrychiolwyr a benodir gan yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig, ynghyd â chynrychiolwyr a etholwyd gan riant-lywodraethwyr, yn gwasanaethu ar y pwyllgorau hefyd. Mae gan y cynrychiolwyr hyn hawliau pleidleisio llawn wrth ddelio â materion yn ymwneud ag addysg. Ar hyn o bryd, mae dwy o'r tair swydd cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr ar Craffu yn wag. Os ydych yn riant-lywodraethwr yn un o ysgolion uwchradd neu arbennig y Cyngor a byddai gennych ddiddordeb mewn cynrychioli'ch sector ar Bwyllgor Craffu, cysylltwch â ni (ceir manylion yn yr adran 'Sut gall trigolion gymryd rhan yn y broses Graffu' tua diwedd yr adroddiad hwn). Byddem yn falch iawn o glywed gennych chi.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu

Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y tri phwyllgor craffu yn gwasanaethu ar Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu'r Cyngor ynghyd â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r Grŵp yn gweithredu fel grŵp cydlynol ar gyfer gwaith y pwyllgorau. Mae ceisiadau am eitemau i'w hystyried gan bwyllgor craffu, boed y rheini gan gynghorwyr sir, swyddogion y Cyngor, trigolion, busnesau, sefydliadau / gwasanaethau cyhoeddus eraill neu'r cyhoedd, yn cael eu harchwilio gan y Grŵp hwn i bennu a ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Craffu, neu a fyddent yn elwa o gael eu hystyried gan fforwm neu grŵp arall. Mae'r eglurhad ar y prawf PAPER ar y dudalen nesaf yn dangos y meini prawf a'r broses ar gyfer pennu a yw pwnc yn un addas ar gyfer craffu.

Yn ystod 2021/22 cafodd cyfanswm o 19 o geisiadau am eitemau i gael eu craffu eu hystyried gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu. O'r 19 cais hwn cafodd:

- 10 eu cyflwyno gan gynghorwyr sir
- 8 gan swyddogion
- ac roedd 1 yn gais gan awdurdod lleol cyfagos yn ceisio cefnogaeth ranbarthol gan Craffu i sylwadau yr oedd wedi'u gwneud i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn sicrhau bod rhaglenni gwaith y pwyllgorau craffu yn gytbwys ac nad yw'r pynciau'n cael eu dyblygu. Mae hefyd yn cefnogi a chryfhau swyddogaeth graffu'r Cyngor drwy nodi'r arfer orau, hyfforddiant neu gyfleoedd datblygu ar gyfer aelodau'r pwyllgor craffu a rhoi cymorth i weithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i arferion craffu.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Y broses ar gyfer penderfynu ar addasrwydd pwnc ar gyfer craffu

Cam un: ystyried y cais

Derbyn ffurflen gynnig neu gais ac ystyried yn ofalus y rhesymau dros y cais.

Cam dau: yw'r mater dan sylw yn cyd-fynd â'r prawf PAPER?

- Lles y cyhoedd: a yw'r mater yn destun pryder i drigolion?
- Y gallu i gael effaith: a all Craffu ddylanwadu ar bethau a'u newid?
- Perfformiad: a yw hwn yn faes neu wasanaeth sy'n tangyflawni?
- Maint: a yw hwn yn effeithio ar nifer fawr o drigolion neu ardal ddaearyddol eang?
- Dyblygu: a oes unrhyw un arall yn edrych ar y mater hwn?

Os nad yw, nid oes angen unrhyw weithredu pellach gan bwyllgor craffu a dylid cyfeirio'r cais i rywle arall neu ofyn am adroddiad er gwybodaeth.

Os yw:

Cam tri: asesu a chynllunio (bydd hyn yn cael ei wneud gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu)

- Penderfynu pa ganlyniadau a ddymunir
- Penderfynu ar gwmpas a graddau'r gwaith craffu sydd angen a'r dull mwyaf priodol i'w gyflawni (h.y. adroddiad pwyllgor, ymchwiliad grŵp tasg a gorffen, neu aelod cyswllt ac ati)
- Os dewisir y llwybr tasg a gorffen, pennu'r amserlen ar gyfer unrhyw ymchwiliad, pwy fydd yn gysylltiedig, gofynion ymchwil, cyngor arbenigol a'r tystion fydd eu hangen, trefniadau adrodd ac ati.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Gwaith craffu yn ystod 2021/22

Roedd 2020/21 yn sicr yn flwyddyn a fydd yn aros yn y cof am amser maith, ond 2021/22 oedd y flwyddyn yr oedd yn rhaid i'r Pwyllgor Craffu, fel pawb arall, geisio addasu i fyw gyda COVID. O ganlyniad, roedd rhan helaeth o waith Craffu yn canolbwyntio ar adfer gwasanaethau'r Cyngor yn dilyn eu hymateb i'r pandemig a'u hymdrechion i drawsnewid darpariaeth gwasanaeth o ymateb i sefyllfaoedd a achoswyd gan y pandemig i ystyried mesurau lliniaru'r pandemig yn eu cynlluniau darparu gwasanaeth er mwyn dychwelyd at 'fusnes fel arfer' neu i ddarparu eu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd yn y dyfodol.

Roedd cyfarfodydd pwyllgor y Cyngor, yn cynnwys cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu, yn parhau i gael eu cynnal drwy gynadleddau fideo drwy gydol y flwyddyn. O ganlyniad, mae holl gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn awr yn cael eu gweddarlledu'n fyw ar wefan y Cyngor, gyda recordiad o'r gweddarllediad ar gael ar y wefan ar ôl pob cyfarfod. Yn y dyfodol bydd holl gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn cael eu cynnal fel 'cyfarfodydd hybrid', sy'n golygu y bydd gan aelodau'r pwyllgor y dewis i fynychu'r cyfarfod wyneb yn wyneb yn y lleoliad dynodedig neu o bell drwy gynadleddau fideo. Bydd pob cyfarfod yn parhau i gael ei weddarlledu ac felly ar gael ar wefan y Cyngor.

Yn ystod 2021/22, canolbwyntiodd y Pwyllgor Craffu ar archwilio gwaith adfer COVID-19 a pharhau ei waith i gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol ac, yn y pen draw, ei Gynllun Corfforaethol erbyn diwedd tymor y Cyngor ym mis Mai 2022. Trwy archwilio gwaith adfer COVID-19, yn enwedig y gwersi a ddysgwyd yn ystod ymateb y Cyngor i'r pandemig, roedd y Pwyllgor Craffu: yn gallu nodi arferion llwyddiannus ac argymell unrhyw addasiadau angenrheidiol cyn defnyddio'r dulliau i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Craffu a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor yn ystod 2021/22

Nodwyd a chytunwyd ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor a'i flaenoriaethau ar ddechrau tymor presennol y Cyngor yn 2017, gyda'r nod o gyflawni'r Cynllun cyfan erbyn diwedd ei dymor yn 2022.

Y Blaenoriaethau Corfforaethol ar gyfer tymor y Cyngor 2017 - 2022 oedd:

Tai: sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion

Clymu Cymunedau: sicrhau bod cymunedau wedi eu cysylltu, a bod ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a drwy gysylltiadau cludiant da

Cymunedau Cryf: sicrhau bod y Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i feithrin annibyniaeth a chryfder

Yr Amgylchedd: sicrhau amgylchedd deniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd; a

Phobl Ifanc: creu sir lle bydd pobl ifanc yn dymuno byw a gweithio, a bydd ganddynt y sgiliau i wneud hynny

Oherwydd graddfa ac effaith y pandemig ar bob agwedd o fywyd bob dydd, yn 2020/21 bu i'r Pwyllgor Craffu ailedrych ar y blaenoriaethau corfforaethol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn parhau i fod yn berthnasol yn Sir Ddinbych ar ôl y pandemig. Daethpwyd i'r casgliad bod y blaenoriaethau a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ôl yn 2017 yn fwy perthnasol nag erioed, oherwydd bod y ffordd yr oedd pobl yn byw eu bywydau wedi newid yn ystod y pandemig. Roedd pwysigrwydd tai diogel o ansawdd da, cymunedau cysylltiedig a chryf, amgylchedd deniadol a phobl ifanc a'u dyfodol yn awr yn bwysicach nag erioed.

Mae'r Cyngor yn ffodus bod ei strwythur pwyllgor craffu thematig yn cynnig digon o hyblygrwydd i alluogi unrhyw un o'r pwyllgorau i archwilio agweddau amrywiol ar gynnydd yr Awdurdod o ran cyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Roedd y gwaith ymateb ac adfer ar ôl y pandemig, ymateb y Cyngor ac asiantaethau eraill i lifogydd mawr yn Sir Ddinbych, ynghyd â mentrau lleol, cenedlaethol a byd-eang i fynd i'r afael â newid hinsawdd wedi'u cynnwys yn rhaglenni gwaith y tri phwyllgor craffu yn ystod y flwyddyn fel rhan o ymdrechion Craffu i gefnogi cyflawniad blaenoriaethau corfforaethol Cymunedau Cryf a'r Amgylchedd.

Nid oedd y blaenoriaethau corfforaethol a oedd yn weddill, yn ymwneud â Thai, Clymu Cymunedau a Phobl Ifanc wedi cael eu hanghofio, gyda Craffu'n archwilio'r cynlluniau ar waith i gyflawni Strategaeth Tai a Digartrefedd y Cyngor, cynlluniau Teithio Cynaliadwy a Chynnal a Chadw Ffyrdd, ynghyd â Chwricwlwm newydd arfaethedig Cymru a'r gofynion a roddwyd ar y Cyngor fel rhan o Drawsnewid 'Anghenion Dysgu Ychwanegol'

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Galw penderfyniadau'r Cabinet i mewn

Gweithredwyd Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor unwaith yn ystod 2021/22 wedi i benderfyniad a wnaethpwyd gan y Cabinet ar 15 Chwefror 2022 gael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu er mwyn ei adolygu. Roedd y penderfyniad hwn yn ymwneud â 'Chynllun Penderfyniadau Dirprwyedig Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir (Rhydd-ddaliadol a Lesddaliadol) at Ddibenion Dal a Storio Carbon a Gwelliannau Ecolegol'.

Gan nad oedd angen gweithredu'r penderfyniad hwn ar frys, cytunodd y sawl a oedd yn gwneud y penderfyniad (y Cabinet) a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau i hepgor y cyfnod o 5 diwrnod a nodir yn Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor i glywed yr adolygiad. Galluogodd hyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ystyried y sail ar gyfer galw i mewn ac adolygu'r dystiolaeth a oedd yn sail i benderfyniad y Cabinet a'i gyfarfod nesaf, a oedd ar 10 Mawrth 2022.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd iddo mewn perthynas â'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet cytunodd y Pwyllgor y byddai'n gofyn i'r Cabinet, yn ei gyfarfod priodol nesaf, ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol gyda'r bwriad o gyflymu'r broses ar gyfer prynu tir. Bu i'r Pwyllgor argymhell gwneud mân ddiwygiadau i eiriad y Cynllun Arfaethedig a gofyn bod y Cabinet yn gweithio gydag Undebau Ffermio a Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc i geisio ymatebion cynhwysol gan y sefydliadau hynny mewn perthynas â'r Cynllun Arfaethedig cyn ailystyried y penderfyniad.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Canlyniadau cadarnhaol y broses graffu

Un o brif amcanion y broses graffu yw i ychwanegu gwerth ac i geisio sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r bobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â Sir Ddinbych. Mae disgwyliad i Craffu ddangos tystiolaeth o'r buddion y mae wedi'i ychwanegu at y broses o wneud penderfyniadau a sut mae'r buddion hynny'n amlygu eu hunain mewn canlyniadau gwell i fusnesau a thrigolion y sir. Er nad yw bod amser yn hawdd i ddangos tystiolaeth o fuddion o'r fath, amcan cyffredinol Craffu yw cefnogi penderfyniadau gwell sydd wedyn yn darparu gwasanaethau gwell.

Yn ystod tymor y Cyngor presennol, mae Craffu wedi bod yn awyddus i hyrwyddo buddion a gwerth craffu i drigolion a sefydliadau yn y sir, gan eu hannog i gymryd rhan yn y broses graffu. Er bod hyn wedi bod yn anodd ar adegau, braf iawn, yn 2021/22, oedd cael cais gan ddisgyblion Ysgol Dinas Bran i gyfrannu at y drafodaeth ar gael gwared ar ddefnydd plastig untro a lleihau carbon o fewn y gwasanaeth prydau ysgol. Yn yr un modd, roedd cyfraniadau gan deuluoedd defnyddwyr gwasanaeth i'r drafodaeth ar ddyfodol Cynnyrch Coed Meifod o gymorth i'r Pwyllgor Craffu sicrhau bod ei argymhellion yn cydbwysu dymuniadau defnyddwyr y gwasanaeth gyda dymuniadau'r Cyngor. Cefnogwyd a chymeradwywyd argymhellion Craffu mewn perthynas â'r ddau fater hwn gan y Cabinet.

Bu i sawl aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Perygl Llifogydd a Pherchnogaeth Tir Glannau Afon nodi eu bod yn teimlo fod bodolaeth y Grŵp wedi helpu i wella trafodaeth agored rhwng budd-ddeiliaid amrywiol a datblygu lefel o gyd-ymddiriedaeth rhyngddynt. Braf iawn oedd derbyn y sylw canlynol gan un o'r sefydliadau partner

"Rwyf wedi mwynhau bod yn rhan o'r grŵp yma ac rwy'n edrych ymlaen at gyfrannu yn y dyfodol hefyd. Rwy'n credu bod sawl allbwn cadarnhaol wedi bod o ganlyniad i ymdrechion y grŵp".

Roedd aelodau'r Gweithgor a oedd yn gyfrifol am oruchwylio datblygiad yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr o'r farn bod sefydlu'r Grŵp hwn gan y Pwyllgor Craffu wedi cyfrannu'n fawr tuag at fudd-ddeiliaid yn ymgysylltu mwy â'r broses. O

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

ganlyniad, fe wnaethant awgrymu y dylid ymgymryd â dull tebyg maes o law wrth ddewis safleoedd posibl i'w hystyried ar gyfer eu datblygu'n safleoedd preswyl i sipsiwn a theithwyr.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Pwyllgor Craffu Cymunedau



Y Cyng. Huw Williams (**Cadeirydd**)



Y Cyng. Graham Timms (**Is-Gadeirydd**)

Mae'r Pwyllgor hwn yn archwilio materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gymunedau lleol a bywydau dyddiol y trigolion. Gall y rhain fod yn faterion o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor neu agweddau o fywyd dyddiol y gall y Cyngor ddylanwadu arnynt.

Wrth i gymunedau Sir Ddinbych, a'r Cyngor ei hun, barhau i ddelio â'r pandemig a'i effaith drwy gydol y flwyddyn, bu i'r Pwyllgor, yn dilyn archwiliad o'r gwaith i gynnal a chadw swyddfeydd y Cyngor i baratoi ar gyfer staff yn dychwelyd i'r gwaith, ganolbwyntio ei waith ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, daeth trigolion Sir Ddinbych yn fwyfwy ymwybodol a gwerthfawrogol o'r ardal y maent yn byw ynddi. Roedd pawb y gwerthfawrogi'r ffaith y gallent fynd am dro neu wneud ymarfer corff a mwynhau prydferthwch yr amgylchedd a'r tirlun naturiol lleol ar stepen eu drws. Fel rhan o'i waith i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd, mae'r Cyngor wedi cyflwyno sawl menter amgylcheddol. Un o'r mentrau hyn yw'r Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt lle mae ardaloedd dynodedig o laswelltir mewn ardaloedd dinesig yn cael eu rheoli a'u meithrin i'w datblygu'n gynefin bywyd gwyllt i gefnogi adferiad gwenyn ac eraill sy'n peillio. Bu i'r Pwyllgor archwilio effeithlonrwydd cyhoeddusrwydd ac ymgysylltiad y Cyngor â thrigolion mewn perthynas â sefydlu'r

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

safleoedd hyn ac argymell mesurau i gryfhau gweithgareddau ymgysylltu wrth i'r dolydd blodau gwyllt gael eu cyflwyno ar draws y sir.

Er i'r fenter uchod ymgeisio, yn rhannol, i gydbwysu effeithiau newid hinsawdd, yn anffodus, ni all trigolion y sir ddianc rhag grymoedd natur pan maent yn dod i'r amlwg. Pan mae hynny'n digwydd, mae gan y Pwyllgor Craffu rôl bwysig i'w chwarae wrth archwilio canfyddiadau archwiliadau statudol i ddigwyddiadau o'r fath. Yn ystod 2021/22, bu i'r Pwyllgor ystyried canfyddiadau'r archwiliadau i'r llifogydd a achoswyd gan storm Ciara ym mis Chwefror 2020 a storm Christoph ym mis Ionawr 2021. Er ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn dysgu gwersi o'i ymateb i'r digwyddiadau hyn, cydnabyddir hefyd nad yw ef na'i sefydliadau partner yn gallu atal grymoedd natur, mae'n rhaid iddynt ddysgu'r ffordd orau i baratoi ar eu cyfer a delio â'r canlyniadau.

Gyda'r bwriad o liniaru'r perygl o lifogydd a'u canlyniadau trychinebus ar drigolion a busnesau ar draws y sir, mae'r Pwyllgor wedi bod yn rhagweithiol wrth sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Perygl Llifogydd a Pherchnogaeth Tir ar Lannau Afon mewn ymgais i gryfhau perthnasau gwaith gyda chyrrff cyhoeddus a thirfeddianwyr i leihau'r perygl o lifogydd. Mae gwybodaeth fanylach ar waith y Grŵp Tasg a Gorffen ar gael mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn. Tuag at ddiwedd blwyddyn y Cyngor, bu i'r Pwyllgor ystyried canfyddiadau o waith y Grŵp Tasg a Gorffen a chefnogi eu hargymhellion, a fydd, gobeithio, yn helpu trigolion i ddeall cyfrifoldebau pob deiliad tŷ a pherchennog tir sydd ag eiddo yn ffinio ag unrhyw fath o gyrsiau dŵr a'u helpu i'w cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth defnyddiol am gyfrifoldebau rheoli llifogydd a'r mesurau y gallant eu cymryd i leihau'r perygl o lifogydd.

Archwiliwyd cyfrifoldebau lliniaru perygl llifogydd mewn perthynas â Ffos y Rhyl a Chafn Prestatyn gan y Grŵp Tasg a Gorffen a'r Pwyllgor. Yn ogystal â'r perygl o lifogydd o'r cyrsiau dŵr hyn, mae'r ddwy dref hefyd mewn perygl o lifogydd o'r môr. Mae gwaith felly'n mynd rhagddo mewn ymgais i liniaru'r perygl o'r math hwn o lifogydd drwy ddatblygu cynlluniau amddiffyn yr arfordir ar gyfer y Rhyl a Phrestatyn. Mae'r mathau hyn o

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

gynlluniau yn brosiectau hirdymor, cymhleth, eang ac felly mae angen ymgysylltiad helaeth â budd-ddeiliaid a'r gymuned. Archwiliodd y Pwyllgor gwmpas a chanfyddiadau'r ymarfer ymgysylltu a gynhaliwyd a daeth i'r casgliad ei fod yn fodlon â'r dull a ddefnyddiwyd.

Mae materion amgylcheddol wedi dod i'r amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda ffocws penodol ar effeithiau cynhesu byd-eang ac agwedd ddi-hid dyn at y byd rydym yn ei rannu â rhywogaethau eraill. Mae Sir Ddinbych wedi llwyddo dros nifer o flynyddoedd i gyflawni cyfraddau ailgylchu uchel ar gyfer ei wastraff tŷ. Fodd bynnag, wrth i'r targedau ailgylchu cenedlaethol gael eu codi mewn ymgais i wrthdroi effeithiau newid hinsawdd, mae'r Cyngor wedi cytuno i newid ei fodel gwasanaeth ar gyfer casglu a delio â gwastraff y cartref, yn cynnwys gwastraff ailgylchadwy. Mae'r model gwasanaeth newydd ar gyfer gwastraff ac ailgylchu wrthi'n cael ei ddatblygu gyda'r bwriad o'i gyflwyno ar draws y sir erbyn yr haf 2023. O dan y model gwasanaeth newydd bydd disgwyl i drigolion sortio eu deunyddiau ailgylchu i gynwysyddion gwahanol cyn iddynt gael eu casglu. Fodd bynnag, byddant hefyd yn gallu ailgylchu nwyddau a deunyddiau nad oes modd eu derbyn i'w hailgylchu ar hyn o bryd o dan y gwasanaeth ailgylchu 'bin glas' presennol. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor wedi bod yn archwilio'r model newydd arfaethedig a'i fuddion gan ddarparu mewnbwn i'r cynllun aml ochrog ar gyfer cyfleu i'r newidiadau hyn i drigolion, a fydd yn dechrau yn y dyfodol agos. Bydd y gwaith hwn yn parhau i dymor newydd y Cyngor, bydd Craffu yn parhau i fonitro ei gynnydd er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r model darparu gwasanaeth newydd.

Mae pryderon yn ddiweddar wedi cynyddu o ran yr endidau masnachol a chorfforaethol mawr yn prynu tir amaethyddol safonol at ddibenion plannu coed mewn ymgais i wrthbwysu eu defnydd carbon. Felly, pan wnaeth y Cabinet benderfyniad ar 'Gynllun Penderfyniadau Dirprwyedig Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir (Rhydd-ddaliadol a Lesddaliadol) at Ddibenion Dal a Storio Carbon a Gwelliannau Ecolegol', mynegwyd pryderon gan nifer o aelodau nad oedd yn rhan o'r Cabinet ynghylch y rhesymau dros y penderfyniad hwn ac o ganlyniad, galwyd y penderfyniad i mewn i'w graffu o dan

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Weithdrefn Galw i Mewn y Cyngor. Bu i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau archwilio'r penderfyniad a'r rhesymau drosto'n fanwl. Ceir mwy o wybodaeth am ganlyniad y broses graffu yn yr adran 'Galw penderfyniadau'r Cabinet i mewn' yn yr adroddiad hwn.

Yn ogystal â thirwedd naturiol y sir, mae blaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor sy'n ymwneud â'r 'Amgylchedd' hefyd yn cynnwys ei amgylchedd adeiledig a sicrhau bod unrhyw adeiladau newydd neu addasiadau i adeiladau presennol yn cydymffurfio â rheoliadau cynllunio cenedlaethol a pholisïau ac amodau cynllunio lleol. Gall torri rheoliadau cynllunio arwain at adeiladau hyll, nad ydynt yn cyd-fynd â'u cymdogaethau lleol, a gall effeithio ar iechyd y lles y rhai hynny sy'n byw yn agos. Gyda'r bwriad o ddatrys unrhyw achosion honedig o dorri caniatâd cynllunio a chefnogi rhai hynny sydd wedi'u heffeithio gan ddigwyddiadau o'r fath, bu i'r Cyngor, rai blynyddoedd yn ôl, ddatblygu Siarter Cydymffurfiaeth Cynllunio i gynorthwyo trigolion a busnesau â deall sut yr oedd y swyddogaeth cydymffurfio â chynllunio yn gweithredu a'u hawliau o dan y broses. Archwiliwyd a chefnogwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Siarter, a oedd yn anelu i wella effeithlonrwydd y broses cydymffurfio â chynllunio, gan y Pwyllgor ar ddechrau 2022. Er y gallai gwaith ailwampio a datblygiadau strwythurol ddifrodi a newid yr amgylchedd lleol os nad ydynt yn cael eu rheoli a'u rheoleiddio'n effeithiol, fe allai enwau amhriodol neu ailenwi eiddo, datblygiadau neu strydoedd ac ati, hefyd niweidio cymeriad yr ardaloedd oes nad yw'r enwau hyn yn rhoi ystyriaeth i ethos a hanes yr ardal. Er mwyn tawelu pryderon mewn perthynas â hyn, archwiliodd y Pwyllgor y mater o 'Ddiogelu Enwau Lleoedd Cymraeg yn Sir Ddinbych' er mwyn gwneud yn siŵr bod y Cyngor yn defnyddio'r holl bwerau yr oedd ar gael iddo o ran diogelu cymeriad, diwylliant a hanes yr ardal.

Oherwydd ei fod yn dra ymwybodol bod y rhaglen cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer stoc dai'r Cyngor wedi cael ei heffeithio'n ddifrifol gan y pandemig, archwiliodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Arolwg i Denantiaid Tai Cyngor, a oedd yn crynhoi barn tenantiaid am eu cartrefi a'u cymdogaethau. Er bod y lefelau bodlonrwydd cyffredinol o ran y gwaith cynnal a chadw wedi bod yn is na blynyddoedd blaenorol, roedd hyn yn ddealladwy oherwydd dim ond gwaith cynnal a chadw brys oedd wedi cael ei gynnal yn ystod y cyfnodau clo.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Gyda chynllun gweithredu bellach ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion, delio ag ôl-groniadau a threfniadau ar gyfer ailddechrau gweithgareddau ac ymgynnull yn gymunedol yn dilyn llacio cyfyngiadau COVID-19, roedd y Pwyllgor yn fodlon fod pob ymdrech yn cael ei wneud i wella lefelau bodlonrwydd.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, o bryd i'w gilydd, mae gweryslyoedd diawdurdod gan aelodau o gymunedau sipsiwn a theithwyr yn achosi tensiynau a gofid i drigolion a busnesau lleol. Y llynedd, adroddwyd bod y Pwyllgor wedi cytuno i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i fonitro datblygiad Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r Asesiad hwn yn ofyniad o broses y Cynllun Datblygu Lleol y mae'r Cyngor wrthi'n ei ddatblygu. Rôl y Grŵp Tasg a Gorffen oedd sicrhau bod yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei ddatblygu yn unol â Methodoleg Llywodraeth Cymru, a chefnogi datblygiad cynllun ymgysylltu â budd-ddeiliaid ar gyfer y prosiect. Oherwydd natur ddadleuol bosibl y maes gwaith hwn, roedd Craffu eisiau bod yn rhan o'r gwaith o gyfnod cynnar i sicrhau bod gwaith ymgysylltu yn cael ei gynnal gyda budd-ddeiliaid wrth ddatblygu Asesiad o Anghenion. Yn ystod y flwyddyn, bu i'r Grŵp Tasg a Gorffen adrodd ar ei waith i'r Pwyllgor ar ddau achlysur. Yn gyntaf, i gyflwyno adroddiad cynnydd ar ei waith ac i geisio cefnogaeth y Pwyllgor mewn perthynas â'i Gynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu arfaethedig, ac yn olaf, i gyflwyno ei gasgliadau ar y broses a ddilynwyd ar gyfer datblygu'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, a chyfathrebu â budd-ddeiliaid. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y broses a ddilynwyd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a bod yr agwedd ar ymgysylltu â budd-ddeiliaid wedi bodloni disgwyliadau Craffu. Yn ogystal, wrth argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo drafft yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, bu i'r Pwyllgor gytuno â'r Grŵp Tasg a Gorffen y byddai efallai o fudd i'r Cyngor newydd fabwysiadu dull tebyg wrth ystyried unrhyw leoliadau posibl ar gyfer unrhyw safleoedd preswyl arfaethedig yn y dyfodol.

Fel rhan o'i waith i gefnogi cyflawniad y flaenoriaeth gorfforaethol Clymu Cymunedau, bu i'r Pwyllgor archwilio Polisiâu Cynnal a Chadw Priffyrdd y Cyngor ar gyfer Ffyrdd Di-

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

ddosbarth. Roedd eisiau sicrwydd y byddai'r ffyrdd a oedd yn rhan o'r categori 'di-ddosbarth', sy'n cyfrif am 44% o rwydwaith priffyrdd y sir ac sydd wedi'u lleoli'n bennaf mewn ardaloedd gwledig, yn cael cyfran deg o'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i'r gyllideb cynnal a chadw priffyrdd. Mae isadeiledd diogel a hygyrch yn allweddol i sicrhau cynaliadwyedd ardaloedd gwledig y sir.

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at [wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Cymunedau, ei raglenni a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor](#).

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Pwyllgor Craffu Partneriaethau



Y Cyng. Jeanette Chamberlain-Jones (**Cadeirydd**) Y Cyng. Emrys Wynne (**Is-Gadeirydd**)

Mae'r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am archwilio effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor naill ai mewn cydweithrediad, neu mewn partneriaeth, â sefydliadau eraill y sector cyhoeddus a sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn diwallu anghenion trigolion. Oherwydd i'r Bwrdd Iechyd Barhau i ganolbwyntio ei waith ar ymateb i Covid-19, nid oedd y Pwyllgor yn gallu ail-ddechrau ar ei amserlen o gyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, bu iddo gyfarfod â chynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd i archwilio datblygiad Gwasanaethau Methiant y Galon a'u heffaith ar Wasanaethau Gofal Cymdeithasol y Sir. Bu peth ansicrwydd ynghylch cynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau methiant y galon yn yr ardal oherwydd natur dros dro y ffrydiau ariannu a ddyrannwyd i gefnogi'r gwasanaethau hyn. Derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd gan y Bwrdd Iechyd fod hyfywedd ariannol bellach wedi'i ddarparu i sicrhau darpariaeth gwasanaethau methiant y galon yn y gymuned ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig.

Daeth pwysigrwydd gwaith partneriaeth effeithiol ar lefel leol a rhanbarthol i'r amlwg yn ystod y cam ymateb i'r pandemig, gydag amryw o sefydliadau, o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd i gynorthwyo â darparu gwasanaethau i bobl ddiamddiffyn mewn angen. Yn unol â'i gylch gorchwyl, bu i'r Pwyllgor, yn ystod y flwyddyn, archwilio nifer o adroddiadau blynyddol a oedd yn

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

canolbwyntio ar wasanaethau a ddarparwyd mewn partneriaeth. Ymysg yr adroddiadau blynyddol a graffwyd arnynt oedd rhai Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych ac Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych, sydd i gyd â chyfrifoldebau diogelu am bobl o bob oedran. Y Pwyllgor yw pwyllgor craffu trosedd ac anrhefn dynodedig y Cyngor ac felly mae ganddo gyfrifoldebau penodol mewn perthynas â chraffu ar gynlluniau a pherfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol o ran cyflawni ei blaenoriaethau i leihau trosedd ac anrhefn, sy'n cynnwys lleihau aildroseddu, mynd i'r afael â cham-drin domestig a chaethwasiaeth fodern, ynghyd â gweithredu yn erbyn gweithgareddau 'Llinellau Sirol'.

Hefyd, y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yw'r Pwyllgor dynodedig gyda chyfrifoldeb dros graffu ar waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'i nod yw darparu buddsoddiad a newid hirdymor a fydd yn hwyluso twf economaidd hirdymor a chynnal y cyfleoedd gyrfa a chyflogaeth sy'n talu'n dda ar draws y rhanbarth. Ar hyn o bryd, mae gwaith y Bwrdd ar y cam cynllunio prosiect achos busnes, felly roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod achosion busnes cadarn yn cael eu datblygu a'u herio'n barhaus, er gwaethaf yr oedi a achoswyd gan Covid, i wneud yn siŵr y byddant, yn y pen draw, yn arwain at dwf economaidd ar draws y rhanbarth.

Parhaodd y Pwyllgor â'i waith o archwilio effeithiolrwydd y gwasanaeth amlddisgyblaethol a sefydlwyd i ddarparu gwasanaethau digartrefedd ar draws y sir. Yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi ei gweledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau digartrefedd a chymorth yn gysylltiedig â thai yn ystod y pandemig ac yn y cyfnod ar ôl y panemig. Roedd hyn wedi golygu bod angen i'r Cyngor adolygu ei fodel ar gyfer darparu gwasanaethau i'r trigolion hynod ddiamddiffyn yma. Er mwyn gwneud yn siŵr bod digon o gymorth ac adnoddau ar gael i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn awr ac yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor, yn ystod y flwyddyn, wedi parhau i fonitro darpariaeth y gwasanaeth a'i effeithiolrwydd o ran cyflawni'r canlyniadau a ddymunir, a bydd yn parhau i wneud hyn yn y dyfodol.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Gyda'r bwriad o wneud yn siŵr bod y Cyngor a'i bartneriaid yn cynllunio gwasanaethau'r dyfodol i ddiwallu anghenion a dewisiadau trigolion, roedd gan y Pwyllgor gyfle i archwilio'r asesiad rhanbarthol diweddaraf o anghenion y boblogaeth. Roedd yr asesiad hwn yn cynnwys yr anghenion penodol a nodwyd ar gyfer poblogaeth Sir Ddinbych yn y dyfodol. Trwy nodi blaenoriaethau ac anghenion lleol, gall y Cyngor a'i bartneriaid sicrhau bod eu gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u cydlynu i ddiwallu'r anghenion hynny. Bydd diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio yn rhoi pwysau ychwanegol ar awdurdodau lleol a'u sefydliadau partner, gyda gallu ychwanegol i fodloni'r gofynion a ddarperir gan y sector gwirfoddol. Cafodd y Pwyllgor drafodaeth ddifyr ac adeiladol â Phrif Swyddog Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ar ei weledigaeth ar gyfer Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, y gwasanaethau yr oedd y sefydliad yn eu hwyluso yn y gymuned i gefnogi gwytnwch ymysg y boblogaeth ac a oedd yn helpu i leihau dibyniaeth ar wasanaethau gofal cymdeithasol statudol. Bydd cyfarfod pellach yn cael ei gynnal gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn ystod y flwyddyn i ddod.

Fel rhan o'i waith yn canolbwyntio ar wasanaethau'r Cyngor ac adferiad yr economi ehangach yn dilyn y pandemig, bu i'r Pwyllgor archwilio effeithiolrwydd mentrau Ardrethi Annomestig Cenedlaethol a pheccynnau cymorth i fusnesau eraill i gynorthwyo ag adfer canol trefi ar ôl Covid-19. Bu iddo hefyd gynnal gwerthusiad pellach o effeithiolrwydd y Cynlluniau Cynllun Teithio Llesol COVID-19 a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ar draws y sir er mwyn sicrhau y gellid defnyddio'r gwersi a ddysgwyd gan y cynlluniau brys gyda chyllid brys a allai ddod ar gael yn y dyfodol. Roedd y Pwyllgor hefyd eisiau deall y buddion a nodwyd yn ystod y Cynlluniau Teithio Llesol Covid-19 a fydd efallai yn cael eu haddasu a'u defnyddio mewn gwaith ecolegol neu waith i leihau carbon yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a'r argyfwng ecolegol. Gan roi ystyriaeth i bryderon amgylcheddol ac ecolegol, bu i'r Pwyllgor unwaith eto archwilio Polisiâu Cynnal a Chadw Ymylon Ffyrdd a Gwrychoedd a Gwasgaru Plaladdwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ganllawiau cenedlaethol cydnabyddedig, mor eco-gyfeillgar â phosibl, a hefyd yn sicrhau diogelwch holl ddefnyddwyr y ffordd.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at [wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ei raglenni a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor](#).

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Pwyllgor Craffu Perfformiad



Y Cyng. Arwel Roberts (**Cadeirydd**)



Y Cyng. Hugh Irving (**Is-Gadeirydd**)

Mae gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ran bwysig i'w chwarae wrth wneud yn siŵr fod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon i drigolion ac wrth gefnogi'r Cyngor i wireddu ei Gynllun Corfforaethol erbyn 2022. Er mwyn cyflawni'r rôl hon, mae'n monitro cyflawniad nifer o gynlluniau a strategaethau'r Cyngor yn rheolaidd, megis y Strategaeth Tai a Digartrefedd, cynnydd a wnaed o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, ynghyd â pherfformiad yr Awdurdod o ran ymateb ac ymdrin ag ymholiadau a chwynion am wasanaethau'r Cyngor. Caiff risgiau mewn perthynas â darpariaeth gwasanaeth eu hadolygu gan y Pwyllgor bob chwe mis er mwyn gwneud yn siŵr bod y Cyngor wedi nodi'r risgiau cywir ac wedi datblygu mesurau priodol i leihau effaith bosibl y risgiau hynny ar drigolion a busnesau yn Sir Ddinbych.

Yn hanesyddol, mae'r Pwyllgor hwn wedi chwarae rhan allweddol wrth fonitro cyflawniad addysgol yn y sir. Gwnaed hyn drwy graffu ar asesiadau athrawon a data canlyniadau arholiadau allanol. Oherwydd y pandemig, nid yw'r data meincnodi a fyddai fel arfer wedi bod ar gael i gynorthwyo swyddogion ac aelodau'r pwyllgor â chymharu cyflawniadau a chynnydd addysgol myfyrwyr Sir Ddinbych ag eraill mewn ardaloedd awdurdod lleol eraill, wedi bod ar gael. Felly, canolbwyntiodd y Pwyllgor, gyda chymorth y cynrychiolwyr addysg cyfetholedig, ei sylw ar archwilio sut yr oedd GwE a Gwasanaethau Addysg y Cyngor yn paratoi ac yn cefnogi ysgolion i weithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Fe wnaethant hefyd archwilio'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r gofynion statudol a gyflwynwyd fel rhan o'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, gan

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

amlygu'r pwysau a wynebwyd gan y Cyngor o ran gweithredu'r gofynion hyn heb y ddarpariaeth o adnoddau ariannol ychwanegol.

Roedd yr ystyriaeth o Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2019/20 a 2020/21 yn amlygu'r ymdrech, yr ymroddiad a'r aberth anferthol a wnaed gan staff y rheng flaen er mwyn sicrhau bod trigolion mwyaf diamddiffyn Sir Ddinbych yn cael y gofal a'r gwasanaethau yr oedd arnynt eu hangen yn ystod y cyfnod digynsail. Roedd ymateb i'r pandemig yn wir wedi rhoi gwasanaethau a chryfder cymunedau ar brawf, ond roeddent wedi addasu ac ymateb i'r her a byddai'r gwersi a ddysgwyd ar hyd yn ffordd o gymorth i siapio darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol. Bu i'r archwiliad o Ddata Perfformiad a Safonau Gwasanaeth Llyfrgell ar gyfer 2020/21 atgyfnerthu hyblygrwydd a chadernid gwasanaethau'r Cyngor i wynebu'r heriau a godwyd yn sgil y pandemig a'u parodrwydd i gefnogi lles trigolion yn ystod argyfwng. Yn y dyfodol, bydd gan yr holl wasanaethau hyn rôl allweddol o ran datblygu cadernid, cydlyniant a chapasiti cymunedol.

Gan fod ymateb i'r rheolau a'r cyfyngiadau yn gysylltiedig â COVID-19 yn cael ei drin fel rhan o fusnes arferol y Cyngor, yn 2021/22, bu i'r Pwyllgor archwilio effeithiau hirdymor y pandemig ar absenoldebau staff a throsiant o fewn y Cyngor ei hun, yn enwedig o ystyried y ffaith fod rhai aelodau staff rheng flaen wedi wynebu straen meddyliol a chorfforol aruthrol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn ogystal â'r realiti bod ffyrdd newydd o weithio yn cael eu cyflwyno ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, a oedd yn golygu y gallai rhai aelodau staff weithio gartref yn barhaol. Roedd y Pwyllgor eisiau sicrwydd bod y Cyngor yn addasu ac yn esblygu'n ddigon cyflym er mwyn galluogi iddo gadw staff cymwys ar bob lefel a denu'r doniau gorau i siapio a darparu gwasanaethau yn Sir Ddinbych yn y dyfodol.

Roedd y Pwyllgor wedi ymrwymo i sicrhau nad oedd addasu i fyw gyda Covid yn gyfyngedig i gefnogi'r rhan fwyaf o drigolion i addasu i'r 'normal newydd'. Roedd hefyd yn awyddus i wella ansawdd bywyd trigolion mwyaf diamddiffyn y sir mewn amgylchedd

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

diogel. I'r perwyl hwn, roedd yn cefnogi galwad i'r gwasanaethau cyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau dysgu ail-ddechrau yng Nghynnyrch Coed Meifod cyn gynted ag yr oedd y gwaith cynnal a chadw ar yr adeilad wedi'i gwblhau ac amgylchedd gwaith diogel o ran Covid yn weithredol. Er mwyn diogelu dyfodol y gwasanaeth hynod werthfawr hwn, bu iddo argymhell i'r Cabinet y dylai archwilio pob cyfle ar gael i wella a datblygu cynaliadwyedd hirdymor Meifod yn y dyfodol.

Roedd newid hinsawdd a lleihau carbon hefyd yn nodwedd o waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn gyda'r Pwyllgor yn archwilio'r cynnydd a wnaed o ran datblygu Cynllun Teithio Cynaliadwy ar gyfer Sir Ddinbych a fyddai, yn y tymor hir, yn cysylltu â'r cynlluniau teithio rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gwaith hwn yn dal yn ei ddyddiau cynnar ac o ystyried y sylw a roddir i waith lleihau carbon a newid hinsawdd yn fyd-eang, bydd ei gyflawniad yn amlwg yng ngwaith y Cyngor newydd. Er mwyn sicrhau'r budd mwyaf o'r gwaith lleihau carbon, mae angen cydlynu ymdrechion ar bob lefel, mae hyn yn golygu bod rhaid i unigolion a sefydliadau gydweithio er mwyn cyflawni'r prif uchelgais. Fodd bynnag, bydd hyd yn oed y cyfraniad lleiaf o gymorth i gyflawni'r nod terfynol. Am y rheswm hwn, bu i'r Pwyllgor, ar gais y Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol, archwilio'r cynnydd a wnaed gan Wasanaeth Prydau Ysgol y Cyngor o ran lleihau ei ddefnydd o blastig untro a nwyddau na ellir eu hailgylchu wrth gyflenwi, paratoi a gweini prydau ysgol. Ymunodd disgyblion o Ysgol Dinas Brân, Llangollen yn y drafodaeth ar y pwnc hwn a chyfrannu'n adeiladol at y ddadl. Er i'r Pwyllgor ddeall nad oedd lleihau'r ddibyniaeth ar blastigau untro wedi bod yn bosibl yn ystod y pandemig, roedd yn credu, o hyn allan, y dylid gwneud pob ymdrech i ddefnyddio deunyddiau pecynnu y gellir eu hailgylchu a llestri y gellir eu hail-ddefnyddio i ddarparu prydau i ddisgyblion. Fodd bynnag, cydnabu y byddai'r costau ychwanegol yn gysylltiedig â defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailgylchu a llestri nad ydynt yn rhai untro, yr angen i addysgu plant ynghylch eu dychwelyd neu eu gwaredu'n briodol, ynghyd â'r gofynion newydd i ddarparu pryd ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd yn y dyfodol, yn rhoi pwysau ychwanegol ar gyllid y Gwasanaeth. Arweiniodd hyn at y Pwyllgor yn gwneud cais i'r Cabinet ohebu â Llywodraeth Cymru a gofyn iddynt ddarparu cyllid digonol i awdurdodau lleol ledled Cymru er mwyn eu galluogi i ddarparu Gwasanaeth Prydau Ysgol gwbl faethol, ecolegol a chynaliadwy'n ariannol.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Cytunodd y Cabinet â'r cais hwn i ohebu â Llywodraeth Cymru ond fe aeth hefyd gam ymhellach a phenderfynodd geisio cefnogaeth ehangach i lobio'r Llywodraeth mewn perthynas â'r pwynt hwn o'r gymuned llywodraeth leol ehangach yng Nghymru, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at [wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Perfformiad, ei raglenni a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor](#).

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych at ddiben cyflawni eu dyletswydd statudol o graffu ar y Cyd-Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych. Mae'n cynnwys 16 aelod, 8 aelod o bob Cyngor yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdodau. Yn 2021/2022, pasiwyd swydd Cadeirydd y Cydbwyllgor i Gyngor Sir Ddinbych pan etholwyd yr Is-Gadeirydd blaenorol, y Cynghorydd Graham Timms, yn Gadeirydd. Yn unol â chylch gorchwyl y Pwyllgor, etholwyd cynrychiolydd o Gyngor Conwy, y Cynghorydd Nigel Smith, yn Is-Gadeirydd. Yn ystod 2021/22, cyfarfu'r Pwyllgor i archwilio Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2020/21 ac i ystyried sut y gallai'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu barhau i wella ei effeithiolrwydd drwy ymgymryd ag ymarferion hunanwerthuso rheolaidd a chynnwys ystod eang o fudd-ddeiliaid yn ei waith craffu.

Fel rhan o'i waith paratoi ar gyfer tymor y cyngorau newydd, mae'r Cyd-bwyllgor wedi archwilio'r dull a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r Asesiad Lles newydd, yn cynnwys y dulliau amrywiol a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â budd-ddeiliaid a'r boblogaeth ehangach ar y meysydd i'w cynnwys yn y fersiwn ddrafft o'r Asesiad Lles. Cyflawnodd y Pwyllgor hefyd ei rôl fel ymgynghorai statudol ar ddrafft yr Asesiad Lles drwy ei archwilio'n fanwl. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y drafft o'r Asesiad, bu iddo argymhell i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i bartneriaid, wrth ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Lles newydd, y dylid gwneud pob ymdrech i ddefnyddio eu pwerau caffael i ganfod nwyddau ac adnoddau mor lleol â phosibl er mwyn cefnogi cyflogaeth, yr economi leol, lles trigolion, a chynnal yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru tra'n lleihau allyriadau carbon.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022



Y Cyng. Graham Timms (Cadeirydd)



Y Cyng. Nigel Smith (Is-Gadeirydd)

Aelodaeth

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

- Y Cyng. Geoffrey David Corry
- Y Cyng. Chris Hughes
- Y Cyng. Ifor Lloyd
- Y Cyng. Donald Milne
- Y Cyng. Elizabeth Roberts
- Y Cyng. Harry Saville
- Y Cyng. Nigel Smith (Is-Gadeirydd)
- Y Cyng. Joan Vaughan

Cyngor Sir Ddinbych

- Y Cyng. Jeanette Chamberlain-Jones
- Y Cyng. Meirick Lloyd-Davies
- Y Cyng. Rachel Flynn
- Y Cyng. Hugh Irving
- Y Cyng. Melvyn Mile
- Y Cyng. Arwel Roberts
- Y Cyng. Graham Timms (Cadeirydd)
- Y Cyng. David G Williams

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at [wybodaeth am y Cydbwyllgor, ei raglenni a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor](#).

Grwpiau Tasg a Gorffen

Yn ystod 2021/22 parhaodd y Pwyllgorau Craffu i ddefnyddio'r Grwpiau Tasg a Gorffen i gyflawni'r gwaith manwl o ddatblygu polisiau ar eu rhan. Effeithiwyd ar gynnydd y grŵp tasg a gorffen a oedd yn archwilio modelau cyflenwi ar gyfer **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion** yn y dyfodol yn ddifrifol gan y pandemig oherwydd caewyd nifer o'r gwasanaethau dan adolygiad am gyfnod hir. Wrth i'r Awdurdod baratoi i ail-agor rhai gwasanaethau, archwiliodd y Grŵp rhai dewisiadau posibl ar gyfer ail-agor y gwasanaeth cyfleoedd gwaith a oedd y cael ei ddarparu gan Gynnyrch Coed Meifod ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Er iddynt gydnabod y gwaith cynnal a chadw yr oedd angen ei wneud ar yr eiddo lle'r oedd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu, roedd y Grŵp yn benderfynol y dylid ail-agor Meifod fel gwasanaeth a redir gan y Cyngor yn yr adeilad presennol. Argymhellir hefyd y dylid darparu unrhyw fuddsoddiad ychwanegol i'r busnes er mwyn galluogi'r busnes i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol. Fel rhan o unrhyw fuddsoddiad yn y dyfodol, argymhellir y dylid archwilio pob cyfle ar gyfer ffyrdd newydd o weithio a datblygu Meifod mewn ymgais i sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor.

Fel yr adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, roedd newid hinsawdd ac yn enwedig amllder a difrifoldeb llifogydd ar draws Sir Ddinbych yn bryder cynyddol i gynghorwyr a'u cymunedau. Roedd y Pwyllgor Craffu Cymunedau felly yn awyddus i archwilio a oedd angen cryfhau'r perthnasau gwaith a sianeli cyfathrebu rhwng yr holl asiantaethau perygl llifogydd, tîrfeddianwyr, a thenantiaid tiroedd sydd â phrif afonydd neu gyrsiau dŵr yn llifo drwyddynt er mwyn lleihau'r difrod a oedd yn cael ei achosi gan ddŵr llifogydd yn ystod cyfnodau o dywydd garw. Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen **Rheoli Perygl Llifogydd a Pherchnogaeth Tir ar Lannau Afon** ar ddechrau 2021, yr oedd ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, cynrychiolwyr Ffermwyr a Thîrfeddianwyr a chynghorau sir yn cynrychioli pob un o Grwpiau Ardal Aelodau'r Cyngor. Pwrpas y Grŵp Tasg a Gorffen hwn oedd archwilio dulliau posibl ar gyfer cryfhau dulliau cyfathrebu a meithrin perthnasau gwaith effeithiol rhwng bob parti. Daeth y Grŵp Tasg a Gorffen â'i waith i ben ac adrodd ynghylch ei [ganfyddiadau ac argymhellion](#) i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Mawrth 2022. Cefnogwyd argymhellion y Grŵp gan y Pwyllgor

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Craffu Cymunedau, a oedd yn cynnwys ail-lansio tudalen wybodaeth 'Llifogydd' y Cyngor i gynnwys dolenni cyswllt i dudalennau gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru er mwyn ei gwneud yn haws i drigolion gael gwybodaeth yn gyflym, cynlluniau ar gyfer dosbarthu gwybodaeth mewn perthynas â chyfrifoldebau perchnogaeth tir glannau afon yng nghyffiniau Ffos y Rhyl a Chafn Prestatyn a bwriad y Grŵp i gyfarfod yn flynyddol at ddibenion rhannu gwybodaeth a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Soniwyd hefyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd am y Gweithgor a sefydlwyd i gynorthwyo â datblygu cynllun ymgysylltu â budd-ddeiliaid ar gyfer proses yr **Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr**. Darparodd y Grŵp hwn adroddiad cychwynol i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gynnydd ei waith a cheisiodd gymeradwyaeth ar gyfer ei Gynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu, cyn dechrau ymgysylltu â budd-ddeiliaid yng nghanol 2021. Ar ddiwedd y flwyddyn, bu i'r Grŵp adrodd ar ei waith unwaith eto a chasgliadau'r ymarfer ymgysylltu â budd-ddeiliaid a gynhaliwyd i lywio'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr. Bu i'r Pwyllgor gefnogi'r dull a ddefnyddiwyd o ran cynnal yr ymarfer ymgysylltu a datblygu'r asesiad ac argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Asesiad i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Roedd hefyd yn cytuno gyda'r Gweithgor y byddai efallai o fudd i fabwysiadu dull tebyg maes o law ar gyfer y broses o ddewis lleoliad arfaethedig ar gyfer lleiniau preswyl.

Gwaith ychwanegol

Yn unol â'r arfer dros y blynyddoedd diwethaf, mae aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi parhau â'u swyddogaethau craffu y tu hwnt i faes ffurfiol y cyfarfodydd pwyllgor. Maent wedi cynrychioli eu pwyllgor ar grwpiau amrywiol megis Grwpiau Her Gwasanaeth a Grŵp Buddsoddi Strategol y Cyngor ac ati. O dan yr eitem busnes sefydlog ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu, mae cynrychiolwyr yn adrodd yn ôl i'w pwyllgorau ar y trafodaethau, yr argymhellion a'r penderfyniadau a wneir yn y cyfarfodydd y maent yn eu mynychu.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Ceisiadau craffu gan drigolion

Ers nifer o flynyddoedd mae pwyllgorau craffu Sir Ddinbych yn gweithredu dull sydd wedi ennill ei blwyf sy'n galluogi preswylwyr i dynnu sylw Craffu at faterion sy'n peri pryder. Caiff hyn ei hwyluso drwy lenwi ffurflen gais am Graffu, sydd ar gael ar [wefan](#), y Cyngor neu gan y Cydlynnydd Craffu. Caiff ffurflenni wedi'u cwblhau eu cyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu, yn yr un ffordd â cheisiadau a dderbynnir gan gynghorwyr, swyddogion neu sefydliadau eraill, i'w hystyried ac i benderfynu a yw'r pwnc yn addas i'w archwilio gan un o'r Pwyllgorau Craffu, neu a fyddai'n fwy buddiol pe bai'r mater yn cael ei ystyried gan fforwm arall.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Sut gall trigolion gymryd rhan yn y broses graffu?

A fydddech chi'n hoffi i'r pwyllgorau craffu edrych ar fater penodol?

Gallwch godi mater i'w ystyried gan un o bwyllgorau craffu Cyngor Sir Ddinbych drwy lenwi'r Ffurflen Gais Craffu (trosodd) neu drwy lawrlwytho'r ffurflen o wefan y Cyngor a'i chyflwyno dros e-bost. Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y tri phwyllgor craffu yn cyfarfod yn achlysurol i benderfynu sut i ddyrannu gwaith y pwyllgorau craffu a byddant yn ystyried a ddylai unrhyw fater gael ei ystyried yn fanwl gan un o'r pwyllgorau, neu a ddylid gweithredu mewn ffordd arall. Gall hyn amrywio o gyfeirio mater i'r gwasanaeth sy'n gyfrifol, i graffu'n llawn ar y mater gan un o'r pwyllgorau craffu, neu hyd yn oed sefydlu 'grŵp tasg a gorffen' arbenigol i archwilio ac adrodd ar fater penodol.

A fydddech chi'n hoffi mynychu cyfarfod pwyllgor craffu?

Mae cyfarfodydd pwyllgorau craffu Cyngor Sir Ddinbych ar agor i'r cyhoedd fel arfer, ac mae trigolion Sir Ddinbych a'r cyhoedd yn cael eu hannog i fynychu neu wyllo'r gweddarllediad ar wefan y Cyngor. Mae rhestr o gyfarfodydd pwyllgorau craffu'r dyfodol a'r materion i'w trafod ar gael ar y dudalen 'Craffu' ar wefan y Cyngor.

Os hoffech chi gymryd rhan yn y drafodaeth ar fater penodol bydd angen i chi ofyn am ganiatâd Cadeirydd y pwyllgor (manylion pellach dros y dudalen).

Yn achlysurol bydd rhai eitemau sy'n cael eu trafod gan bwyllgor yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol na ellir ei thrafod yn y fforwm cyhoeddus arferol. Bydd unrhyw eitemau o'r fath (y cyfeirir atynt fel 'Rhan Dau (II)') wedi'u nodi'n glir pan fydd papurau'r cyfarfod yn cael eu cyhoeddi, a bydd Cadeirydd y pwyllgor sy'n trafod eitem 'Rhan II' yn ei gwneud hi'n glir y dylai'r cyfarfod barhau heb bresenoldeb y wasg a'r cyhoedd er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

A fydddech chi'n hoffi siarad mewn pwyllgor ar fater sy'n cael ei drafod?

Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd pwyllgorau craffu, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy gyswllt fideo, ond bydd yn rhaid gofyn am ganiatâd y Cadeirydd os ydynt am siarad neu wneud sylwadau mewn cyfarfod pwyllgor. Os hoffech chi gyflwyno tystiolaeth gerbron pwyllgor, neu annerch aelodau ar sail eich profiad mewn perthynas â phwnc dan sylw, cysylltwch â'r Cydlynnydd Craffu ymlaen llaw er mwyn trefnu hyn a dosbarthu unrhyw waith papur i aelodau'r pwyllgor.

Yn achlysurol, gall y pwyllgorau craffu 'gyfethol' unigolyn gyda phrofiad neu arbenigedd penodol i ddod yn aelod dros dro o'r pwyllgor neu ofyn iddynt gyfrannu at ymchwiliad fel tyst arbenigol.

Cael y wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau pwyllgorau craffu Sir Ddinbych

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n cael ei drafod yng nghyfarfod pob pwyllgor craffu, yn ogystal ag unrhyw gyfarfod cyhoeddus arall y Cyngor, drwy ymweld â'r dudalen 'cyfarfodydd' ar wefan y Cyngor. Mae 'rhaglen waith' ddiweddaraf pob un o'r pwyllgorau craffu ar gael, ynghyd â'r papurau perthnasol ar gyfer pob cyfarfod, a bydd yr agenda sydd wedi'i chadarnhau ar gyfer pob cyfarfod ar gael 5-7 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod fel arfer.

Mae cofnodion y cyfarfodydd craffu blaenorol a chofnod o'r penderfyniadau hefyd ar gael ar wefan y Cyngor, yn ogystal â'r recordiadau o gyfarfodydd craffu diweddar.

Gallwch gael rhagor o gyngor neu wybodaeth drwy gysylltu â'r Cydlynnydd Craffu, Rhian Evans ar rhian.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712554) neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, Karen Evans, ar karen.a.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712575) neu drwy anfon e-bost at y cyfeiriad cyffredinol:democrataidd@sirddinbych.gov.uk.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

Ffurflen gais craffu

A oes unrhyw fater yr hoffech i'r pwyllgorau craffu gael golwg arno?

Rhowch ddisgrifiad byr o'r pwnc yr hoffech i un o'r Pwyllgorau Craffu ei ystyried gan nodi pam rydych yn credu y dylai gael ei ystyried

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2021 i 2022

A fyddech chi'n hoffi mynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu?
FYDDWN

BYDDWN / NA

Byddai'n ddefnyddiol petaech yn gallu rhoi'r manylion isod i ni er mwyn i ni allu ymateb i'ch cais

Eich enw:

Cyfeiriad:

Cod post:

E-bost:

Rhif ffôn:

Dychwelwch y ffurflen hon at:

Y Cydlynnydd Craffu

Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd

Blwch Post 62

Rhuthun

LL15 9AZ

neu e-bostiwch y ffurflen at democrataidd@sirddinbych.gov.uk